Hwb

Microsoft

# Beth ydych chi'n ei gael gyda Microsoft 365?

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu trwyddedau ar gyfer pob disgybl ac athro mewn ysgolion gwladol yng Nghymru. Mae'r canllaw hwn yn esbonio beth mae Office 365 yn ei gynnig a sut gall y gwahanol raglenni ac adnoddau helpu disgyblion, athrawon ac arweinwyr mewn ysgolion.

## Office

**Y meddalwedd busnes mwyaf pwerus yn y byd.** Nawr ar gael i'w lwytho i lawr AM DDIM ar 15 dyfais bersonol drwy Hwb. Fersiynau proffesiynol o Word, PowerPoint ac Excel sydd bob amser yn gyfredol, yn ogystal ag apiau Office ar gyfer eich dyfeisiau iOS ac Android.

- Arbed arian.
- Meddalwedd cyfarwydd a phwerus.
- Hawdd ei osod.

## OneNote

**Llyfr nodiadau digidol ar gyfer athrawon a disgyblion,** sydd wedi'i rannu'n adrannau a thudalennau**.** Mae OneNote yn cadw eich nodiadau ar draws eich holl ddyfeisiau ac yn caniatáu i chi fewnosod testun, llawysgrifen, sain, lluniau a dolenni.

- Adnoddau dysgu a hygyrchedd.
- Rhoi llyfrau nodiadau a rennir ar waith ar gyfer eich dosbarthiadau.
- Rhoi adborth digidol i ddisgyblion yn rhwydd.

## Minecraft: Education Edition

**Gêm byd-agored yw Minecraft: Education Edition,** sy'n hybu creadigrwydd, cydweithio a datrys problemau mewn amgylchedd y gallwch ymgolli ynddo, lle mai'r unig ffin yw eich dychymyg.

- Dysgu hwyliog drwy gemau.
- Amgylchedd diogel ar-lein.
- Annog creadigrwydd ac arloesedd.

## Teams

**Hyb digidol diogel** ar gyfer cydweithio, dosbarthiadau a chyfarfodydd. Rhowch Teams a sianeli ar waith i rannu ffeiliau a gweithio gyda'ch gilydd o unrhyw ddyfais. Nodwedd sgwrsio ar-lein ar gael i staff – un-i-un neu grwpiau.

- Mannau ar-lein i rannu ffeiliau.
- Pennu tasgau a gwaith cartref.
- Cydweithio ag ysgolion eraill.

## OneDrive

**Eich storfa ffeiliau bersonol** sy'n cynnig lle storio ar-lein am ddim a mynediad ato o unrhyw le. Storio, rhannu a chysoni ffeiliau'n rhwydd rhwng eich cartref a'r ysgol. Mae'n cadw gwaith yn ddiogel ac yn gwneud copi wrth gefn yn awtomatig.

- Dechrau gwaith ar un ddyfais a'i orffen ar ddyfais arall.
- Cadw gwaith yn awtomatig wrth i chi weithio.
- Rhannu ffeiliau ag unrhyw un.

Hwb Microsoft

Windows 10

**Windows 10** yw System Weithredu ddiweddaraf Microsoft y mae modd ei gosod ar gyfrifiaduron yr ysgol neu gyfrifiaduron eich disgyblion. Mae'n fwy diogel na Windows 7 ac mae'n darparu amgylchedd modern ar gyfer dysgu a gweithio.

- Mae disgyblion a staff yn gyfarwydd â'r system.
- Mae'n gweithio ar gyfrifiaduron bwrdd gwaith a gliniaduron.
- Diogelwch mewnol.

Outlook

**Fersiwn ar-lein o'ch e-bost a'ch calendr** sydd ar gael ar unrhyw ddyfais. Fyddwch chi byth yn brin o le i negeseuon gyda 50Gb o le yn eich mewnflwch. Mesurau diogelwch mewnol uwch i ddiogelu eich data sensitif.

- Cyfeiriadur athrawon Cymru gyfan.
- Arbed costau argraffu drwy newid i gael post electronig.
- Calendrau a rennir.

Forms

**Adnodd syml ac ysgafn** y gallwch ei ddefnyddio i greu ffurflenni, cwisiau ac arolygon ar-lein yn gyflym. Gallwch gasglu ymatebion mewn amser real a llunio siartiau awtomatig er mwyn gweld eich data.
**Dim mwy o ffurflenni papur!**

- Gallwch gasglu data'n hawdd a'u dadansod-di'n awtomatig.
- Gallwch gyflwyno arolygon a ffurflenni i rieni'n rhwydd.
- Allgludo canlyniadau i Excel.

Sway

**Rhaglen straeon digidol** sy'n cyflwyno syniadau ar y sgrin mewn modd rhyngweithiol a greddfol. Gallwch blannu delweddau, testun a fideo mewn cyflwyniad ar-lein. Adnodd syml i ddisgyblion ac athrawon ei ddefnyddio i greu eu cynnwys eu hunain

- Gwych ar gyfer newyddlenni ysgolion.
- Opsiwn ar-lein i'w ddefnyddio yn lle Powerpoint.
- Hawdd ei ddefnyddio.

Planner

**Rhestr a rennir** o bethau i'w gwneud, lle gallwch greu cynlluniau, trefnu a neilltuo tasgau. Ap rheoli prosiectau syml sy'n integreiddio ag Office 365.

- Cael gwell trefn ar bethau.
- Cadw llygad ar gynnydd tuag at nodau.
- Rheoli prosiectau gyda strwythur.

I lwytho i lawr copïau o Microsoft Office a Minecraft: Education Edition gartref **AM DDIM**, gall staff a'r dysgwyr fynd i **hwb.llyw.cymru/microsoft** a dilyn ein canllaw syml.